“Bydd pob un y mae’r Tad yn ei roi i mi yn dod ataf fi, ac ni fwriaf allan byth mo’r sawl sy’n dod ataf fi... Ac ewyllys yr hwn a’m hanfonodd i yw hyn: nad wyf i golli neb o’r rhai y mae ef wedi eu rhoi imi, ond fy mod i’w hatgyfodi yn y dydd olaf.”
(Ioan 6:37,39)

Y mae pob tad yn dymuno ac yn mwynhau rhoi rhoddion i’w blentyn. Fel arfer, mae’n rhoi anrhegion da, o’r ansawdd gorau mae’n gallu ei fforddio, a rhai fydd yn dda i’w blentyn. Mae’r Arglwydd Iesu yn dweud yn y geiriau hyn fod y Tad nefol yn rhoi iddo anrhegion wedi eu torri, ond ei fod ef yn hapus i’w derbyn, eu cadw a’u trwsio.

Anrhegion gan y Tad

Mae’r geiriau hyn gan Iesu yn dweud yn glir (gydag adn.44) na all neb ddod at Iesu Grist heb i’r Tad ei dynnu a’i arwain ato. Mae’r geiriau a’r ddysgeidiaeth yma yn dipyn o ergyd i falchder dyn, ond dyna ni. Dyma ddysgeidiaeth glir y Testament Newydd. Yr ydym yn credu yng Nghrist, yn glynu wrtho, am fod ryw ragluniaeth ddistaw yn ein harwain ac yn ein tynnu trwy waith dirgel yr Ysbryd Glân.

Mae’r apostol Paul yn cadarnhau dysgeidiaeth yr Arglwydd Iesu:
“Cyn seilio’r byd, fe’n dewisodd yng Nghrist i fod yn sanctaidd ac yn ddi-fai ger ei fron mewn cariad” (Eff. 1:4).
“A’r rhai a ragordeiniodd, fe’u galwodd hefyd; a’r rhai a alwodd, fe’u cyfiawnhaodd hefyd, a’r rhai a gyfiawnhaodd, fe’u gogoneddodd hefyd” (Rhuf. 8:30).

Mae achubiaeth dyn yn dechrau gyda Duw. Fel y dewisodd Iesu’r deuddeg, mae Duw yn dewis ei bobl yng Nghrist. Mae’r Ysbryd Glân yn peri rhyw newid dirgel mewn rhai pobl, sy’n peri iddyn nhw ddod at y Gwaredwr mewn edifeirwch a ffydd. Nid bod Duw wedi rhagweld rhywbeth rhagorach mewn rhai; nid fel scowtiaid Lerpwl yn chwilio am y goreuon ar gyfer y tîm.

Anrhegion sâl

Pan feddyliwn am berson yn dod at Iesu Grist, nid darlun o dad yn rhoi rhodd drudfawr sgleiniog i’w fab ddylai fod gennym. Pobl sydd angen Gwaredwr sydd yn dod at Iesu; pobl sydd yn ymwybodol, i ryw raddau o leiaf, o’u pechodau; pobl sydd ar goll, pobl sydd yn gweld eu bywydau yn wag. Yn nyddiau ei weinidogaeth, daeth y rhai ag ysbrydion aflan ato, y cleifion, y pechaduriaid,

hynny yw, y colledig a'r briwedig a'r toredig. Clywsant ei wahoddiad, "Mi glywais lais yr Iesu'n dweud".

Derbyn, cadw ac atgyfodi

Mae Iesu'n addo y bydd yn derbyn pob un sydd yn dod ato. Does dim ots pa mor wael yw cyflwr yr anrheg, mae'r Mab yn ei dderbyn yn llawen oddi wrth ei Dad nefol.

Dwi ddim yn siŵr sut fyddai'n plant ni heddiw yn ymateb wrth dderbyn tegan wedi'i dorri, a ninnau'n dweud wrthynt mai nhw oedd piau hwn bellach, a'i fod yn brosiect arbennig i'w drwsio a'i adnewyddu. Dyna'n union sydd yn digwydd gyda phobl Crist. Mae rhai pobl yn hoff o adnewyddu hen geir neu hen ddodrefn. Maen nhw'n eu prynu mewn cyflwr bregus, er eu bod o wneuthuriad da yn wreiddiol. Ac mae Crist wedi marw trosom pan oeddem ni yn dal i fod yn bechaduriaid. Mae nhw'n bwrw iddi i dynnu'r hen ddarnau rhydlyd, toredig. Mae'r Arglwydd yn gorfod ein disgyblu ni, a'n helpu i farw i'r hen natur bechadurus hefyd. Mae'n nhw'n gosod darnau newydd, yn tiwnio'r injan, yn rhoi sglein ar y dodrefn. Mae'r Arglwydd yn rhoi i ni natur newydd, sydd yn cael ei phatrymu arno Fe, nes y byddwn yn debyg iddo yn y diwedd.

Fel arfer, bydd plant yn taflu tegan sydd wedi torri, yn arbennig yn ein cymdeithas ni heddiw. Does dim sôn am drwsio, ond am daflu i ffwrdd. Mae'r Arglwydd Iesu yn gosod pwys aruthrol o fawr ar gadw ei bobl tan y diwedd. Dyma neges hyfryd o gysurlon i ni pan fyddwn yn ein gweld ein hunain yn araf yn dod yn sanctaidd fel y dylem. **"Yr wyf fi'n rhoi bywyd tragwyddol iddynt; nid ânt byth i ddistryw, ac ni chaiff neb eu cipio hwy allan o'm llaw i. Hwy yw rhodd fy Nhad i mi, rhodd sy'n fwy na dim oll, ac ni all neb eu cipio allan o law fy Nhad"** (Ioan 10:28-29).

Yn olaf, mae'r Arglwydd yn addo ein hatgyfodi yn y dydd olaf. Dyma addewid bendigedig o atgyfodiad i berffeithrwydd yn ailddyfodiad Crist. Bryd hynny, bydd pwrpas y rhagordeinio wedi ei gyflawni. **"Oherwydd cyn eu bod hwy, fe'u hadnabu, a'u rhagordeinio i fod yn unffurf ac unwedd â'i Fab, fel mai cyntafanedig fyddai ef ymhlith pobl lawer"** (Rhuf. 8:29).